# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12 Gorffennaf 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
12 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwella Lefelau Cadw Staff o Fewn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

**C6 Jocelyn Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwella lefelau cadw staff o fewn y gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ12608)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr wyf wedi derbyn argymhellion ar gyfer llunio strategaeth gynhwysfawr, lawn i fynd i'r afael â materion gweithlu gan weithgor tasg a gorffen arbenigol y sefydlais yn gynharach y flwyddyn hon. Mae argymhellion y grŵp yn nodi'n glir bod rhaid inni weithredu'n barhaol dros dymor hir ar nifer o agweddau, os ydym am ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd yr anelwn ni ato.

Mae'r grŵp yn datblygu cynllun gweithredu ac yr wyf wedi nodi'n glir y byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth â'r sector i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol. Cyhoeddir adroddiad y grŵp yn yr hydref.

### Moderneiddio Gwasanaethau Awdioleg

**C7 Dafydd Wigley:** Sut y mae'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau awdioleg yr NHS yn mynd rhagddo? (OAQ12610)

**Jane Hutt:** Fel y cyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni, dyrannwyd £1.5 miliwn i'r NHS yng Nghymru i wella gwasanaethau cymhorthion clyw yr NHS ar draws Cymru. Y mae cyllid pellach wedi ei glustnodi ar gyfer 2002-03 a 2003-04, yn amodol ar benderfyniadau cylch cynllunio'r gyllideb. Cyfarfu'r bwrdd prosiectau am y tro cyntaf ar 7 Mehefin 2001. Yn awr mae tîm y prosiect yn archwilio canolfannau a gwasanaethau awdioleg presennol ac yn rhoi sylw i wella offer a hyfforddi awdiolegwyr. Cyflwynir adroddiad gerbron y bwrdd ym Medi. Yna gwahoddir ymddiriedolaethau i gyflwyno ceisiadau i wella eu hadnoddau, ac ystyrir y rhain yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Hydref, lle penderfynir ar ddyraniad terfynol y cyllid i'r ymddiriedolaethau. Erbyn Ebrill 2002, bwriad bwrdd y prosiect yw fod yr adrannau awdioleg yn gallu asesu a fyddai claf yn elwa o gael cymhorthyn clyw sy'n dechnolegol well.

### Mynd i'r afael â'r Anghydraddoldebau Iechyd yng Nghymru

**C8 Janet Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru? (OAQ12602)

**Jane Hutt:** Mae angen gweithredu o fewn yr NHS a thu hwnt er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Gyda 'Gwellcymru.com' yn sail i'r cyfan, yr ydym yn cynorthwyo unigolion i wella eu hiechyd eu hunain a hefyd yn rhoi sylw i'r ffactorau cymdeithasol-economaidd sydd yn effeithio ar iechyd. Mae ein cronfa anghydraddoldebau iechyd yn cefnogi camau newydd mewn cymunedau difreintiedig, tra bo'n hadolygiad dyrannu adnoddau yn ddatblygiad arwyddocaol. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd wedi trafod adroddiad yr Athro Townsend ac wedi

cytuno i ymgynghori ynghylch dulliau newydd i sicrhau fod adnoddau'r NHS yn cael eu targedu'n fwy effeithiol ar waeledd. Mae Cymunedau'n Gyntaf ac Amcan 1—y ddau yn cynnwys iechyd—yn rhoi sylw i ffactorau cymdeithasol-economaidd.

**Cwtogi ar Afiechyd a Achosir gan Lygredd Amgylcheddol**

**C9 Janet Ryder:** Pa fesurau y gall y Gweinidog eu cymryd i gwtogi ar afiechyd a achosir gan lygredd amgylcheddol? (OAQ12617)

**Jane Hutt:** Fel y nodwyd yn ein cynllun datblygu cynaliadwy, mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i roi'r sylw pennaf i bobl ac ansawdd eu bywydau yn awr ac yn y dyfodol. Yr ydym eisoes wedi cyflwyno nifer o bolisïau, gyda sawl un yn cael ei ysgogi o Ewrop, sydd yn ceisio amddiffyn yr amgylchedd ac iechyd pobl. Datblygir mesurau pellach dros gyfnod o amser.

**Cynhyrchu Cyfarpar Addas ar Gyfer Cynnal Tonsilectomïau**

**C10 Janice Gregory:** Beth yw'r diweddaraf ynghylch hynt y gwaith i gynhyrchu cyfarpar addas ar gyfer cynnal tonsilectomïau yng Nghymru? (OAQ12538)

**Jane Hutt:** Eleni, dyrannwyd £1 miliwn i brynu a chyflenwi offer i'w defnyddio unwaith yn unig ar gyfer triniaethau tonsilectomïau. Bydd Cyflenwadau Iechyd Cymru yn cyflenwi'r offer hyn i'r ymddiriedolaethau ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

Dosbarthwyd llwyth cyntaf yr offer hyn i Gyflenwadau Iechyd Cymru ar 6 Gorffennaf 2001. Dyrennir nifer penodol o offer tonsilectomi i'r ymddiriedolaethau ar sail nifer y triniaethau a wnaethpwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Unwaith y bydd yr ymddiriedolaethau wedi cadarnhau'r ffigurau hyn, dosberthir yr offer, sydd i'w defnyddio unwaith yn unig.

**Parhau i Ddarparu Gwasanaethau Pwysig Mewn Ysbytai Cymunedol Bychain**

**C11 Nick Bourne:** Pa gamau all y Gweinidog eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau pwysig a ddarperir mewn ysbytai cymunedol bychain yng Nghymru yn parhau yn y tymor hir? (OAQ12536)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd y polisi ar swyddogaeth a dyfodol ysbytai cymunedol yn 1996 yn yr adroddiad 'Ysbytai Cymunedol yng Nghymru: Y Dyfodol'. Yr oedd yr adroddiad yn rhoi cyngor i brynwyr a chyflenwyr ynghylch potensial ysbytai cymunedol.

Yn y cyfarwyddyd hwnnw, cydnabyddir bod rhaid i ysbytai bychain, lleol ddarparu amrediad o wasanaethau ar sail anghenion lleol. Un o'r prif argymhellion oedd y dylai pob ysbyty cymunedol fod â swyddogaeth glir, yn unol â chytundeb lleol, gyda'r cyfleusterau a sgiliau'r staff yn adlewyrchu'r swyddogaeth hon.

Bydd grwpiau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r NHS a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gyfrifol am ystyried a chytuno ar swyddogaeth eu hysbytai cymunedol fel rhan o weithredu agenda'r iechyd ehangach.

**Trechu Anghydraddoldebau Iechyd yng Nghymru**

**C12 Christine Gwyther:** Pa bolisïau y mae'r Gweinidog yn eu dilyn i drechu anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru? (OAQ12517) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Nifer y Nyrsys dan Hyfforddiant yng Nghymru**

**C13 Owen John Thomas:** Sut y mae nifer y nyrsys dan hyfforddiant yng Nghymru ar hyn o bryd yn cymharu â'r nifer sydd wedi gadael y proffesiwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (OAQ12545) [W]

**Jane Hutt:** Ni chedwir cofnod o nifer y nyrsys sydd yn gadael y proffesiwn yn barhaol yn ganolog. Er bod ymddiriedolaethau a chyflogwyr eraill yn cadw cofnod o nifer y nyrsys sydd yn eu gadael, mae'n annhebygol iawn y bydd y rhain yn dangos a ydynt yn symud i swydd arall yn y proffesiwn nyrsio ai peidio.

Mae'r cynlluniau eleni ar gyfer y gweithlu yn cynnwys gwybodaeth a gyflwynwyd gan y sector gwirfoddol, y gwasanaethau cymdeithasol a'r sector preifat, ynghyd â sefydliadau eraill sydd yn cyflogi nyrsys, a bydd yn darparu darlun mor gyflawn â phosibl o'r proffesiwn nyrsio yng Nghymru.

Mae nifer y nyrsys sydd o dan hyfforddiant yng Nghymru yn berthnasol i anghenion y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol, gan ystyried materion megis y nifer sydd yn ymddeol, trosiant staff a chynyddiadau cyffredinol o ganlyniad i ddatblygiadau yn y gwasanaeth.

### Annog Plant i Fwyta'n Iach

**C14 Jocelyn Davies:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog plant Cymru i fwyta'n iach? (OAQ12596) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rôl Partneriaethau Cyhoeddus Preifat/Mentrau Cyllid Preifat yn y Sector Iechyd

**C15 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar rôl Partneriaethau Cyhoeddus Preifat/Mentrau Cyllid Preifat yn y sector iechyd yng Nghymru? (OAQ12611) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Defnyddio Deintyddion yr NHS yng Nghymru

**C16 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau deintyddion yr NHS yng Nghymru? (OAQ12501)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaeth deintyddol NHS cynhwysfawr, o ansawdd da ar gael i bawb sydd yn dymuno ei ddefnyddio ble bynnag y bônt yn byw yng Nghymru. Dylai unrhyw glaf sydd heb gofrestru ac sydd eisiau dod o hyd i ddeintydd NHS gysylltu â'r awdurdod iechyd lleol am enwau a chyfeiriadau gwahanol bractisiau sydd yn fodlon derbyn cleifion NHS newydd.

Mae menter ddeintyddiaeth Cymru, a lansiwyd gyntaf ym 1995, eisoes wedi cael llwyddiant sylweddol wrth ddenu deintyddion newydd i'r rhannau hynny o Gymru sydd eu hangen fwyaf. Mae'r fenter wedi galluogi awdurdodau iechyd yng Nghymru i gynnig grantiau i ddeintyddion ar gyfer practisiau newydd neu ehangu eu practis, ac wedi galluogi ymddiriedolaethau'r NHS i ehangu ar y gwasanaeth deintyddol cymunedol. Lansiwyd cam 2 o'r fenter yng Ngorffennaf 1998 gyda mwy o hyblygrwydd, er mwyn datrys problemau yr ardaloedd ag anghenion arbennig.

Yn awr, mae cronfa reolaidd wedi ei gosod o'r neilltu i sicrhau parhad y fenter ac yr ydym ar hyn o bryd yn ystyried sut y gellir ei datblygu'n bellach. Yn y cyfamser, mae cymorth grantiau'n dal i fod ar gael i ddeintyddion sydd yn fodlon ymrwymo'n barhaol i'r NHS a sefydlu practis newydd, neu ehangu ar y practis sy'n bod eisoes, mewn unrhyw ardal gymwys sydd heb ddenu ymgeiswyr eto. Pan fo'n angenrheidiol, gall awdurdodau lleol geisio nodi ardaloedd newydd sy'n gymwys ar gyfer cymorth grant.

### Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**C17 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? (OAQ12618) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Darpariaeth Gwasanaethau Oncoleg a Radiotherapi yn Ysbyty Llwyn Helyg

**C18 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau oncoleg a radiotherapi a ddarperir yn Ysbyty Llwyn Helyg? (OAQ12515) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Oriau Gweithio Hyblyg yn yr NHS**

**C19 Elin Jones:** Pa gamau a gymerir i ymgynghori â'r staff ynghylch datblygu oriau gweithio hyblyg yn yr NHS? (OAQ12609) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Campws Meddygaeth ym Mangor**

**C20 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ddatblygu campws meddygaeth ym Mangor? (OAQ12615) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynnydd yn yr Achosion o Awtistiaeth**

**C21 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn egluro a yw'r cynnydd yn yr achosion o awtistiaeth yn deillio o newidiadau mewn dulliau diagnosis neu ai ffactorau eraill sy'n gyfrifol am y cynnydd? (OAQ12601)

**C25 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd yn yr achosion o awtistiaeth yng Nghymru? (OAQ12495)

**Jane Hutt:** Gall fod y cynnydd yn y niferoedd sydd wedi eu nodi'n awtistig fod, yn rhannol, oherwydd y gwelliannau yn y dulliau diagnosis a hefyd oherwydd newidiadau yn y modd y diffinnir anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Nid yw'n glir a oes gwir gynnydd ai peidio.

Mae'r Adran Iechyd wedi gofyn i'r Cyngor Ymchwil Meddygol lunio darlun clir a chynhwysfawr o'r wybodaeth bresennol ar achosion, nifer a chyffredinrwydd awtistiaeth ynghyd â pha mor gryf yw'r dystiolaeth sydd yn atgyfnerthu'r wybodaeth. Disgwylir adroddiad y cyngor yn yr hydref. Yr wyf yn cefnogi'r fenter hon yn llwyr a byddaf yn astudio'r canfyddiadau â diddordeb mawr.

**Darparu Gofal a Gwasanaethau Iechyd drwy Gyfrwng y Gymraeg**

**C22 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gofal iechyd a gwasanaethau iechyd a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg? (OAQ12554)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth am faterion diwylliannol a ieithyddol ymysg yr holl staff rheng flaen. Bydd yn cyflawni hyn drwy gydnabod anghenion cleifion a staff Cymraeg eu hiaith wth gynllunio ar gyfer gweithlu'r dyfodol a recriwtio a hyfforddi staff.

Mae swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad wedi bod yn cydweithio'n agos, ac o ganlyniad, sefydlir gweithgor Cymru-gyfan gyda'r bwriad o ddatblygu dull strategol i fynd i'r afael â materion yr iaith Gymraeg o fewn sefydliadau iechyd yng Nghymru.

Bwriad y grŵp hwn fydd gwella a hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn yr NHS a chyrff sy'n bartneriaid iddo yng Nghymru. Yr ydym yn rhagweld y bydd gan y grŵp hefyd swyddogaeth fonitro yn y cyd-destun hwn.

**'Drinking of Alcohol by Children and Adolescents'**

**C23 Helen Mary Jones:** Pa gamau ychwanegol fydd y Gweinidog yn eu cymryd dros Gymru, yn dilyn trafodaeth Cyngor yr Undeb Ewropeaidd am argymhellion 'Drinking of alcohol by children and adolescents' a'r gynhadledd ddiweddar yn Stockholm ar yr un pwnc? (OAQ12594)

**Jane Hutt:** Yr ydym eisoes yn gweithredu cryn dipyn o'r hyn a drafodir. Mae alcohol yn rhan o gynnwys dogfen strategol, tymor hir y Cynulliad, sydd yn unigryw a chyda ffocws pendant, 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: y Dull Partneriaeth'. Yr ydym yn monitro'n barhaus

ddatblygiadau polisi'r UE a datblygiadau polisïau eraill ar alcohol a phobl ifanc gyda'r bwriad o addasu'r strategaeth.

**Strategaeth i'r Henoed yng Nghymru**

**C24 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ddatblygu'r strategaeth i'r henoed yng Nghymru? (OAQ12625) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dileu'r Awdurdodau Iechyd (Goblygiadau)**

**C26 Pauline Jarman:** Beth fydd goblygiadau dileu'r awdurdodau iechyd i gynllunio adnoddau dynol yng Nghymru? (OAQ12595) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adolygiad Dyrannu Adnoddau'r NHS**

**C27 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Adolygiad Dyrannu Adnoddau'r NHS a'i oblygiadau i Gymru? (OAQ12607)

**Jane Hutt:** Ystyriwyd adroddiad yr Athro Townsend ar adolygiad dyrannu adnoddau'r NHS gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 4 Gorffennaf. Tra bo peth amheuon ynghylch cymeradwyo'r adroddiad cyn cwblhau'r gwaith a oedd yn weddill, cytunodd y Pwyllgor y dylai adroddiad yr Athro Townsend fod yn sylfaen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn Hydref/Tachwedd eleni. Dylid llunio adroddiad pellach i'r Pwyllgor yn dilyn yr ymatebion. Y bwriad yw cyflwyno'r fformwla newydd yn 2003-04. Yn y cyfamser, bydd y gronfa anghydraddoldebau iechyd yn parhau i gael ei thargedu er mwyn diwallu anghenion, a bydd ei swyddogaeth tymor hir yn cael ei hystyried.

Cydnabu'r Pwyllgor hefyd faint a dyfnder gwaith yr Athro Townsend a'i dimau yn yr amser byr oedd ar gael. Yr oedd hi'n bwysig bod y mater hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â gweithredoedd eraill i roi sylw i amddifadedd cymdeithasol ac economaidd o fewn y Cynulliad a chyda Llywodraeth San Steffan.

**Strategaeth Iechyd Rhywiol**

**C28 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar y strategaeth iechyd rhywiol? (OAQ12628) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mynd i'r Afael â Phroblemau Iechyd**

**C29 Geraint Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau iechyd sy'n deillio o amddifadedd yn y Cymoedd? (OAQ12616) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhestrau Aros ar Gyfer Cleifion Mewnol**

**C30 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y rhestrau aros ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru? (OAQ12548) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Cynllun Peilot o'r Fagloriaeth Gymreig**

**C7 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ryddhau manylion y bid a gyflwynwyd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru i ddatblygu cynllun peilot o'r Fagloriaeth Gymreig? (OAQ12581) [W]

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae manylion tendr Cyd-bwyllgor Addysg Cymru yn fasnachol sensitif. Fel y dywedais yn fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin, byddwn yn rhyddhau mwy o wybodaeth ynghylch y model arfaethedig cyn gynted â phosibl.

**Gwella Adeiladau Ysgolion**

**C8 Peter Black:** Faint o arian sydd ar gael i awdurdodau addysg lleol wella adeiladau ysgolion eleni? (OAQ12485) [R]

**Jane Davidson:** Mae cyfanswm o £74.5 miliwn o gyfalaf ar gael i awdurdodau lleol drwy ddyraniadau ariannu cyffredinol a rhaglen y Fargen Newydd: Cyllid Ychwanegol i Ysgolion yn 2001-02 ar gyfer gwelliannau i adeiladau ysgolion. Yn ychwanegol at hyn, yr wyf yn disgwyl i'r awdurdodau wario tua £21 miliwn o'r cyllid a drosglwyddwyd o 2000-01.

**Amddiffyn Athrawon Rhag Trais a Chamdriniaeth**

**C9 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno cynllun tebyg i'r cynllun cerdyn coch a fabwysiadwyd yn ysbytai'r NHS yn Lloegr, yn ysgolion Cymru er mwyn amddiffyn athrawon rhag trais a chamdriniaeth? (OAQ12480)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi clywed am y cynllun peilot yn Lloegr. Fis diwethaf, cyhoeddodd Alan Milburn, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd y byddai'n ystyried a ddylid ei gymhwyso'n ehangach yn y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Yr wyf yn cydnabod bod rhai rhinweddau o'r cynllun yn addas ar gyfer ysgolion yng Nghymru, ond byddai rhaid i mi ei ystyried yn fwy gofalus, yn enwedig sut y byddai'n cydberthyn â'n trefniadau presennol gwahardd disgyblion o'r ysgol a'r agenda cynhwysiant cymdeithasol ehangach. Fodd bynnag, gall y fenter godi mewn trafodaethau a ragwelaf yn hwyrach yn y flwyddyn, gyda diddordebau addysgol ehangach ym maes dadrithiad disgyblion â'u hysgol.

**Sefydlu Ysgoloriaethau Cynnal Dysgwyr yng Nghymru**

**C10 Ieuan Wyn Jones:** Pryd bydd y Cabinet yn dod i benderfyniad ynghylch sefydlu Ysgoloriaethau Cynnal Dysgwyr yng Nghymru? (OAQ12564)

**Jane Davidson:** Yr oedd cynnig i gyflwyno ysgoloriaethau cynnal dysgwyr o Fedi 2002 ymlaen yn un o'r 54 argymhelliad a wnaed gan grŵp ymchwil annibynnol ar galedi myfyrwyr ac ariannu yng Nghymru. Y mae'r argymhelliad hwn, fel pob un o'r cynigion, yn cael ei archwilio'n fanwl. Byddai'n costio isafswm o £40 miliwn ychwanegol y flwyddyn i'w gyflwyno. Bydd rhaid ystyried hyn yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb bresennol, gan ystyried diddordebau'r dysgwyr a'r blaenoriaethau cystadleuol sy'n wynebu'r Cynulliad yn llawn.

**Sefydlu Ysgolion Arbenigol**

**C11 Jonathan Morgan:** A fydd y weinyddiaeth yn hyrwyddo sefydlu ysgolion arbenigol yn unol â'r Mesur Diwygio Addysg arfaethedig? (OAQ12526)

**Jane Davidson:** Mae'r sylfaen gyfreithlon ar gyfer ysgolion arbenigol eisoes yn bodoli. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i hyrwyddo ysgolion o'r fath yng Nghymru.

**Adnoddau Ychwanegol a Glustnodwyd ar Gyfer Addysg Bellach yng Nghymru**

**C12 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw adnoddau ychwanegol a glustnodwyd yn ddiweddar ar gyfer addysg bellach yng Nghymru? (OAQ12508) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb**

**C13 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o fewn addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru? (OAQ12576)

**Jane Davidson:** Yn fy llythyrau cylch gorchwyl at Gyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, nodais y byddwn yn disgwyl i'r cynghorau weithio tuag at weledigaeth, gwerthoedd a themâu arweiniol y Cynulliad fel y'u hamlinellwyd yn 'Gwellcymru.com'. Mae'n ofynnol bod y ddau gyngor, sy'n cydweithio o dan yr enw Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa), yn gweithredu i hyrwyddo cyfle cyfartal, mynediad agored ac amrywiaeth, ac yn gweithio'n agos gyda chyrff allweddol ym maes cydraddoldeb.

Yr amcanion yw:

- Cynyddu i'r eithaf gyfranogiad pobl ifanc 16 mlwydd oed i 19 mlwydd oed ym myd addysg a hyfforddi;
- Ehangu cyfranogiad oedolion ym myd addysg;
- Ymateb i'r angen am ddarpariaeth addysg ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i bobl ag anawsterau dysgu ac/neu anableddau;
- Codi lefel sgiliau sylfaenol; a
- Sicrhau bod pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu a rhai sydd yn dychwelyd i'r farchnad lafur yn cael eu hannog a'u galluogi i ddatblygu eu galluoedd a'u potensial i'r eithaf.

### Darparu Cymhorthion Clyw Radio

**C14 Rosemary Butler:** A oes unrhyw gamau wedi'u cymryd i ddarparu cymhorthion clyw radio i blant ysgol yng Nghymru? (OAQ12511)

**Jane Davidson:** Awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd sydd yn bennaf gyfrifol am roi diagnosis o nam ar y clyw a darparu cymhorthion clyw, er y gall awdurdodau addysg lleol hefyd ddewis darparu cymhorthion o'r fath, ar wahân neu ar y cyd, gyda chyrff iechyd drwy gytundebau partneriaeth lleol.

Mae gan y Cynulliad ddiddordeb mawr yn y defnydd o dechnoleg gwybodaeth ym myd addysg. Gall TG wneud gwir wahaniaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig a'u gallu i fanteisio ar y cwricwlwm. Wrth roi sylw i hyn, byddwch yn falch o glywed fy mod i yn ddiweddar wedi cyhoeddi manylion strategaeth 'Dysgu trwy TGCh' yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi £16 miliwn i ehangu'r defnydd o gyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion a dysgwyr ar draws Cymru. Fel rhan o'r strategaeth, bydd £10 miliwn ar gael ar gyfer cyfrifiaduron a chyfleusterau rhwydweithio mewn ysgolion ac offer TGCh ychwanegol mewn ysgolion cynradd.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwahodd awdurdodau addysg lleol a'u partneriaid lleol i gyflwyno cynigion ar gyfer datblygu canolfannau addysg yn eu hardaloedd. Fel rhan o'r strategaeth, bydd cyllid o £0.5 miliwn ar gael ar gyfer offer TGCh i blant ag anghenion addysgol arbennig. Er mai'r awdurdodau addysg lleol sydd i benderfynu eu blaenoriaethau o fewn eu cynigion priodol, mae nifer o'r cynigion sydd wedi eu derbyn o dan y strategaeth hyd yn hyn yn cynnwys y defnydd o gymhorthion clyw radio.

### Annog Ysgolion i Gysylltu neu Efeillio ag Ysgolion yn Ewrop

**C15 Rosemary Butler:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i annog ysgolion i gysylltu neu efeillio ag ysgolion yn Ewrop? (OAQ12488)

**Jane Davidson:** Nod y Cynulliad yw sicrhau bod pob ysgol yn rhoi mwy o bwyslais ar ddinasyddiaeth weithredol ac yn rhoi cyfleoedd newydd i bobl ifanc gysylltu â'r byd eang. Yr ydym yn sicrhau bod ysgolion yn gallu manteisio ar gyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a fydd yn eu galluogi i fagu cysylltiadau gydag ysgolion ym mhob rhan o'r byd.

### Allgáu Cymdeithasol ym Myd Addysg

**C16 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar allgáu cymdeithasol ym myd addysg? (OAQ12571)

**Jane Davidson:** Yr ydym yn gwybod bod y rhagolygon yn wael ar gyfer plant sydd wedi ymddieithrio ac sydd o bosib ag anawsterau ymddygiadol, nad ydynt yn mynychu'r ysgol neu wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae cylchlythyr 3/99 y Cynulliad Cenedlaethol 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', yn cynnwys cyngor ymarferol i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ar weithredu ataliol a mynd i'r afael â materion sydd yn ymwneud â disgyblion sydd wedi'u hymddieithrio o'u hysgolion.

Mae 'Gwellcymru.com' yn gosod targedau i leihau'r nifer o absenoldebau heb eu hawdurdodi a gwaharddiadau parhaol o ysgolion o draean erbyn 2004. Ariannir y targedau hyn gan gyllid a ddaw o'r grantiau ar gyfer cefnogaeth a hyfforddi addysgol, a dyrannwyd £3 miliwn i weithgaredd 19—presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol—yn 2001-02. Mae cyfanswm o £9.86 miliwn ar gael i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yn 2001-02. Awdurdodau lleol sydd yn penderfynu faint o'r swm hwn sydd i'w wario ar bresenoldeb yn yr ysgol ac anawsterau ymddygiadol.

Bwriadwn gynnal cynhadledd ddeuddydd bwysig yn hwyrach yn y flwyddyn, gan dynnu ynghyd gynrychiolwyr o'r holl brif grwpiau, gan gynnwys prifathrawon, athrawon dosbarth, undebau llafur, llywodraethwyr ac awdurdodau addysg lleol i ystyried a thrafod materion ar ddieithriwch disgyblion a chynhwysiant cymdeithasol.

Byddaf hefyd, cyn bo hir, yn cyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig i wella canlyniadau addysgol y plant sydd yn derbyn gofal yr awdurdodau lleol, grŵp sydd wrth wraidd rhaglenni gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drawsnewid ansawdd y gwasanaethau i blant. Bydd y canllawiau yn cysylltu â chylchlythyr 4/2001 y Cynulliad Cenedlaethol, 'Children First Programme in Wales Guidance 2001-2002', a Deddf Plant (yn Gadael Gofal) 2000, i sicrhau bod plant mewn angen yn manteisio i'r eithaf ar freintiau a chyfleoedd bywyd yn sgîl cyfleoedd addysgol, gofal iechyd a chymdeithasol.

### Trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau

**C17 Christine Gwyther:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i drafod materion addysg sy'n berthnasol i Gymru gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Addysg a Sgiliau? (OAQ12509) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Amddiffyn Ysgolion Gwledig

**C18 Karen Sinclair:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i amddiffyn ysgolion gwledig? (OAQ12586)

**Jane Davidson:** Mater i'r awdurdodau addysg lleol yw rheoli'r nifer o leoedd mewn ysgolion a phenderfynu ymhle i fuddsoddi ac ad-drefnu. Gall ysgolion gwledig fod mewn sefyllfa fregus yng nghyd-destun y bygythiad o gau yn sgîl gostyngiad yn niferoedd y disgyblion, costau rhedeg uchel a'r her o gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol gydag un neu ddau o athrawon. Gall ysgolion o'r fath fod yn fwy ymarferol mewn sawl ffordd. Mae cydweithio ag ysgolion cyfagos neu glystyru ysgolion, mwy o ddefnydd o ddysgu o bell, a ffederasiwn o ddwy ysgol neu fwy yn bosibiliadau. Mae rhai awdurdodau addysg lleol hefyd yn ceisio ehangu defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol drwy drefnu grwpiau chwarae, clybiau ar ôl ysgol, addysg a hyfforddiant i oedolion, cymdeithasau chwaraeon neu wirfoddol, neu sefydlu canolfannau technoleg gwybodaeth i'r gymuned.Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn ystyried dulliau o'r fath cyn penderfynu mai cau'r ysgol yw'r dewis iawn.

Mae'n bosibl y bydd sefyllfa yn codi lle mae'n well cau'r ysgol neu uno ysgolion cyfagos. Ni fyddai'n addas cynnig diogelwch cynhwysfawr i ysgolion gwledig, nag unrhyw ysgol arall, heb ystyried ansawdd yr addysg na'r costau. Pan fydd cynigion yn cael eu gwrthwynebu a'r penderfyniad yn dod ataf i, yna byddaf yn penderfynu yn ôl eu rhinweddau. Ystyrir ffactorau cymunedol, ond fy mhrif ystyriaeth yw ansawdd yr addysg.

### Hybu Addysg Uwch drwy Gyfrwng y Gymraeg

**C19 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau rhagweithiol y mae hi'n eu cymryd i hybu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg? (OAQ12579) [W]

**Jane Davidson:** Fel y gŵyr yr Aelod, mae pob sefydliad addysg uwch yn gorff annibynnol, hunanlywodraethol sydd yn gyfrifol am bennu ei faterion gweinyddol ac academaidd ei hun, gan gynnwys dewis pa gyrsiau i'w darparu a phenderfynu a gynigir hwy drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio.

Serch hynny, yn fy llythyr cyfarwyddyd ar gyfer 2001-02 i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, un o'r blaenoriaethau a nodais ar gyfer sector addysg uwch Cymru oedd y dylai sefydliadau gyfrannu at ddatblygu dwyieithrwydd yng Nghymru.

Mae'r cyngor yn cefnogi datblygu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg drwy nifer o wahanol fesurau a mentrau, gan gynnwys: talu premiwm i sefydliadau addysg uwch am gofrestriadau i gyrsiau/modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg; cyllid i gefnogi sefydliadau addysg uwch wrth iddynt gyflwyno cynlluniau strategol drwy gyfrwng y Gymraeg; cyfrannu at gost uned ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg Prifysgol Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar; ac ariannu hyfforddiant athrawon Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwylir i'r cyngor gyflwyno cynigion ar ehangu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i mi erbyn Hydref 2001.

### Cyflwyno Ysgolion Arbenigol yng Nghymru

**C20 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau'r weinyddiaeth i gyflwyno ysgolion arbenigol yng Nghymru? (OAQ12528)

**Jane Davidson:** Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i agor ysgolion arbenigol yng Nghymru.

### Recriwtio Athrawon yng Ngogledd Cymru

**C21 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch recriwtio athrawon yng ngogledd Cymru? (OAQ12505)

**Jane Davidson:** Nid oes tystiolaeth yng Nghymru gyfan nag yng Ngogledd Cymru bod ysgolion yn gyffredinol yn wynebu anawsterau argyfyngus ac arwyddocaol o ran recriwtio. Mae swyddi dysgu gwag yng Nghymru yn isel o hyd. Yn Ionawr 2001, dim ond 99 o swyddi dysgu oedd yn wag, sef 0.4 y cant o'r raddfa swyddi gwag.

Fodd bynnag, nid ydym yn bodloni ar hynny. Yr ydym yn cynnig cymhellion ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon lle'r ydym wedi cael anawsterau recriwtio ac mae'r rhain yn dwyn ffrwyth. Dengys y ffigyrau diweddaraf gynnydd o 25 y cant yn y ceisiadau o'u cymharu â'r adeg hon llynedd.

### Denu Mwy o Bobl o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig Cymru i Ddilyn Cyrsiau Addysg Uwch ac Addysg Bellach

**C22 Jocelyn Davies:** Pa gamau penodol y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i ddenu mwy o bobl o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru i ddilyn cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach? (OAQ12559)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i ddenu mwy o bobl sydd â'r gallu i fanteisio ar addysg ôl-16, yn enwedig drwy annog myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel neu ddifreintiedig yn gymdeithasol i gyfranogi, yn ogystal â grwpiau eraill nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Er mwyn helpu gyda hyn, mae'r Cynulliad yn darparu cronfeydd caledi i sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach sydd yn derbyn arian cyhoeddus. Pwrpas y cronfeydd hyn yw cynorthwyo myfyrwyr a fyddai fel arall yn cael eu rhwystro rhag dilyn addysg ôl-16 oherwydd rhesymau ariannol, a'r rheini sydd wedi cychwyn cwrs astudio ond wedi profi anawsterau ariannol wedyn.

Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi £20 miliwn i'r perwyl hwn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2001-02. Mae hyn yn ymateb yn uniongyrchol i alwad gan grŵp annibynnol ar galedi myfyrwyr am gynnydd yng

nghronfeydd mynediad a chaledi ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a dyma'r argymhelliad cyntaf i'w weithredu gan y Cynulliad. Yr oeddwn yn hynod falch o gyhoeddi hyn cyn y gwyliau fel bo modd hysbysu sefydliadau a darparu canllawiau i hysbysu pawb ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol o'r datganiad a wneuthum gerbron y Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr ymchwiliad annibynnol ar galedi myfyrwyr ac ariannu yng Nghymru. Bydd Cabinet y Cynulliad yn ymateb i argymhellion yr adroddiad cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r Cynulliad hefyd yn mynd ar ofyn Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'w cynorthwyo i gwrdd â'u hamcanion i ddenu mwy i ddilyn addysg ôl-16 a hwyluso'r broses, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Disgwylir i'r ddau gyngor hyn, sy'n cydweithio o dan yr enw Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa), ddefnyddio eu rhaglenni a'u mentrau unigol, lle bo'n briodol, i:

- Gynyddu i'r eithaf gyfranogiad pobl ifanc 16 mlwydd oed i 19 mlwydd oed ym myd addysg a hyfforddi;
- Ehangu cyfranogiad oedolion ym myd addysg;
- Ymateb i'r angen am ddarpariaeth addysg ôl -16 drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i bobl ag anawsterau dysgu ac/neu anableddau;
- Codi lefel sgiliau sylfaenol; a
- Sicrhau bod pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl â chyfrifoldebau gofalu a rhai sydd yn dychwelyd i'r farchnad lafur yn cael eu hannog a'u galluogi i ddatblygu eu galluoedd a'u potensial i'r eithaf.

### Adnoddau Ychwanegol sydd ar gael i Fyfyrwyr yng Nghymru (Adroddiad Rees)

**C23 David Lloyd:** Pa adnoddau ychwanegol sydd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad Rees? (OAQ12578)

**Jane Davidson:** Yr oedd y Cynulliad eisoes wedi dechrau rhoi sylw i nifer o faterion ynghylch noddi myfyrwyr cyn i'r grŵp adolygu caledi myfyrwyr gyflwyno eu hadroddiad terfynol. Yn ei adroddiad mae'r grŵp yn barod i gydnabod fod y Cynulliad wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol sylweddol ar gael ar gyfer grantiau mynediad a chaledi.

Cyhoeddais ddydd Llun, 9 Gorffennaf fod Cabinet y Cynulliad wedi gweithredu'n syth i ddelio â chaledi myfyrwyr drwy gynyddu'r cronfeydd mynediad a chaledi ar gyfer myfyrwyr i £20 miliwn ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf fel yr argymhellwyd gan adroddiad y grŵp annibynnol ar galedi myfyrwyr. Mae hyn yn ymateb yn uniongyrchol i alwad gan grŵp am gynnydd yng nghronfeydd mynediad a chaledi ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a dyma'r argymhelliad cyntaf i'w weithredu gan y Cynulliad. Yr oeddwn yn hynod falch o gyhoeddi hyn cyn y gwyliau fel bo modd hysbysu sefydliadau a darparu canllawiau i hysbysu pawb ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Fel y mynegais yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin, bydd holl argymhellion yr adroddiad yn cael eu hymchwilio'n fanwl a'u profi'n drylwyr a realistig o bob safbwynt cyn penderfynu ar unrhyw gamau. Bydd rhaid rhoi sylw i'r goblygiadau ariannol yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb bresennol

### Ymestyn y Ddarpariaeth Addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg

**C24 Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod digon o staff dwyieithog ar gael â hyfforddiant priodol er mwyn ymestyn y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i blant tair a phedair oed? (OAQ12523) [W]

**Jane Davidson:** Mae panel ymgynghorol y blynyddoedd cynnar wedi sefydlu nifer o is-grwpiau, gan gynnwys un yn benodol i ystyried y nifer o staff â'r hyfforddiant a'r cymwysterau priodol sydd ar gael i osod targedau a hysbysu datblygiad strategaeth hyfforddi blynyddoedd cynnar, yn unol â rheolau a safonau cenedlaethol yn y dyfodol.

Os ydym am gyflawni darpariaeth o'r safon uchaf, rhaid i ni i gyd sicrhau bod cyfleoedd yn y blynyddoedd cynnar yn cael eu harwain a'u meithrin gan staff cymwysedig sydd yn gofalu yn ogystal ag addysgu, beth bynnag fo'r cyfrwng.

**Mesurau Addysg a Amlinellwyd yn Araith y Frenhines**

**C25 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch barn y weinyddiaeth am y Mesurau addysg a amlinellwyd yn Araith y Frenhines? (OAQ12525) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dathlu'r Flwyddyn Wyddoniaeth**

**C26 Gareth Jones:** Pa ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu i ddathlu'r flwyddyn wyddoniaeth yng Nghymru? (OAQ12566)

**Jane Davidson:** Mae hi'n amlwg yn bwysig codi safonau ym myd gwyddoniaeth ac annog mwy o bobl ifanc i ddilyn gyrfa ym myd gwyddoniaeth neu astudio pwnc gwyddonol fel rhan o'u haddysg ôl-16. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn trafod gyda gwahanol sefydliadau yr argymhellion am ddigwyddiadau yng Nghymru ar gyfer blwyddyn wyddoniaeth, a bwriadaf gyhoeddi manylion cyn bo hir.

**Pwysigrwydd y System Addysg ar gyfer Trechu Hiliaeth yng Nghymru**

**C27 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd y system addysg ar gyfer trechu hiliaeth yng Nghymru? (OAQ12512) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig**

**C28 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd wedi'u gwneud i ddatrys y problemau sy'n wynebu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ysgolion Cymru? (OAQ12575)

**Jane Davidson:** Mae mesurau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer yr holl blant ag anghenion addysgol arbennig yn ysgolion Cymru yn rhan o raglen weithredu anghenion addysgol arbennig yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y Cynulliad, 'Llunio Dyfodol Addysg Arbennig', a cheir copi yn Llyfrgell y Cynulliad.

Yn dilyn hyn, atgyfnerthwyd nifer o'r prif fesurau a amlinellwyd yn y rhaglen weithredu gan Ddeddf Anabledd ac Anghenion Addysgol Arbennig 2001, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 11 Mai. Yn awr mae'r Cynulliad ar y cyd gyda grŵp ymgynghorol Cymru ar anghenion addysgol arbennig yn gweithio tuag at gynhyrchu cod ymarfer diwygiedig ar anghenion addysgol arbennig yng Nghymru i ymgorffori canllawiau statudol i ysgolion, asiantaethau statudol ac eraill ynghylch eu cyfrifoldebau newydd a'r rhai presennol dros blant ag anghenion addysgol arbennig. Gobeithiaf, yn y dyfodol agos, fod mewn sefyllfa i gadarnhau trefniadau'r amserlen ar gyfer y cam pwysig nesaf hwn.

Ymhellach, mae Deddf Anabledd ac Anghenion Addysgol Arbennig 2001 yn deddfu ar gyfer nifer o argymhellion adroddiad gan weithlu hawliau'r anabl ar hawliau sifil pobl anabl, 'From Exclusion to Inclusion', a gyhoeddwyd ddiwedd 1999. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd dros hawliau'r anabl i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion—gan gynnwys ysgolion annibynnol—yng Nghymru a Lloegr. Y dyletswyddau newydd yw:

- Peidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol na disgyblion nad ydynt yn anabl, heb gyfiawnhad.

- Gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl wrth iddynt fanteisio ar addysg; a

- Chynllunio'n strategol a sicrhau ei bod yn haws i bobl ddefnyddio adeiladau ysgolion a manteisio ar y cwricwlwm.

### Dyrannu Arian Ychwanegol yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru

**C29 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y datblygiadau o ran dyrannu arian ychwanegol yn y sector addysg bellach yng Nghymru? (OAQ12507) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Codi Safonau yn Ysgolion Uwchradd Cymru

**C30 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau i godi safonau yn ysgolion uwchradd Cymru? (OAQ12568)

**Jane Davidson:** Yr ydym yn gweithio'n agos gydag Estyn a'r Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ar godi safonau yn holl ysgolion Cymru, ac yr ydym wedi gosod nifer o dargedau cenedlaethol heriol a fydd yn feini prawf i fesur cynnydd. Yn gynharach eleni, rhoddais gyllid ychwanegol i awdurdodau addysg lleol sefydlu rhaglenni i ddelio â gwelliannau yng nghyfnod allweddol 3 a chefnogi'r newid o gyfnod allweddol 2 wrth leihau maint y dosbarthiadau iau. Eleni, cyfanswm y cyllid ychwanegol yw £20 miliwn, a fydd yn codi i £25 miliwn yn 2002-03 a £32 miliwn yn 2003-04. Yn ychwanegol at hyn, mae Estyn yn datblygu fframwaith sydd yn canolbwyntio ar gynyddu lefelau mewn llythrennedd a rhifedd yn yr ysgolion uwchradd ac yn adeiladu ar waith effeithiol a wnaethpwyd yn y sector cynradd.

Yr ydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o drefniadau Cyngor Partneriaeth i leihau'r bwlch rhwng ysgolion. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ym Mawrth 2002 sydd yn canolbwyntio ar leihau'r bwlch hwn ac yr wyf yn hyderus y bydd yn cynnig argymhellion ar sut i fynd i'r afael â'r broblem hon yn ogystal â rhoi goleuni pellach ar natur y broblem. Bydd y grŵp yn llywio sut y gellir adeiladu ar arferion da presennol a'u datblygu'n bellach er budd yr holl ysgolion.

Mae'r cysylltiadau sydd rhyngom â'r awdurdodau addysg lleol drwy broses cynllun addysg strategol yn sail i'n rhaglen safonau. Mae'r cynllun yn galluogi awdurdodau addysg lleol i nodi eu prif flaenoriaethau a gweithgareddau a'u gosod mewn fframwaith strategol a fydd yn cyflawni rhaglen gwella ysgolion sydd yn cyfateb i anghenion lleol, ond ar yr un pryd yn cyfateb i raglen safonau cenedlaethol.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad sydd â System Fideogynadledda

**C6 Alison Halford:** A wnaiff y Dirprwy Lywydd ddatganiad ar nifer swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad sydd â system fideogynadledda sydd yn gweithio? (OAQ12534) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Dirprwy Lywydd ( John Marek):** Gallaf gadarnhau bod offer fideogynadledda pen-desg wedi ei osod yn swyddfeydd 27 o Aelodau'r Cynulliad hyd yn hyn. Mae 17 Aelod arall yn disgwyl i gysylltiadau cyfathrebu ychwanegol gael eu gosod, a fydd yn sicrhau bod swyddfeydd eu hetholaethau yn gallu cysylltu â'r Bae er mwyn cwblhau gosod yr offer fideogynadledda pen-desg.